

Cyngor Cymuned Llanelian (335)

Cofnodion cyfarfod Mai 11, 2021 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Ian Evans, Dafydd Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Elfyn Hughes, John Griffiths, Hefina Williams, Alan Williams, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Cyng Aled Morris Jones, Cyng Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Ian Evans a bu croesawu pawb yn bresennol. Bu Aled Morris Jones nodi fod angen iddo adael am 7.15 ond yn hapus i ddilyn i fynu unrhyw faterion drwy ebost.

Bu cydnabod derbyn llythyr o ymddiswyddiad gan Thomas Jones wedi dros deugain mlynedd yn gynghorydd. Cadarnhawyd bod pawb wedi derbyn copi o'r llythyr drwy ebost er gwybodaeth. Cytuno yn unfrydol bod y Cyngor yn dymuno'n dda ac yn diolch i Thomas Jones am ei ymroddiad a'i wasanaeth i'r Cyngor ac i'r gymuned dros y cyfnod. Bydd y clerch yn ysgrifennu ato i ddiolch yn swyddogol.

CET

2 Datgan Diddordeb

Dim

3 Sedd Wag

Bu cyfethol Owain Roberts, yn aelod o'r Cyngor. Y clerch i gadarnhau gyda CSYM a pharatoi'r dogfennau perthnasol iddo. Cadarnhawyd byddai'r clerch hefyd yn dechrau'r broses ar gyfer y sedd wag yn dilyn ymddeoliad Thomas Jones.

CET

4 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Penodwyd Ian Evans yn Gadeirydd ac Elfyn Hughes yn Is-gadeirydd, cynnig Hefina Williams, unfrydol hapus.

5 Cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau a Chynrychiolaeth Pwyllgorau Allannol

Cadarnhawyd aelodaeth pwyllgorau fel a ganlyn:

5.1 Cyllid a Pholisi – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Alan Williams

5.2 Parciau a Mannau Agored – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Carol Whitaker, Gordon Hayes, Hefina Williams

5.3 Mynwent – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones

5.4 Llithrfa – Cadeirydd neu Is-gadeirydd, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Owain Roberts, ynghyd a chynrychiolaeth o'r gymuned (Rolant Williams, Iwan Lloyd, Chris Hoyland), Swyddogion CSYM, cynrychiolaeth aelodau'r cynllun. Cytuno byddai gwahodd pob deilydd goriad o ardal y cyngor cymuned i gyfarfod nesaf y pwyllgor.

5.5 Cronfa Ty Moel Isaf – holl aelodau onibai eu bod yn datgan fel arall.

5.6 Llwybrau – Cadeirydd neu Is-gadeirydd, Dafydd Griffiths, Carol Whitaker, John Griffiths, Hefina Williams

5.7 Cadarnhawyd cynrychiolaeth ar bwyllgorau allannol fel a ganlyn:

Llywodraethwyr Ysgol – Glenys Jones
Pwyllgor y Neuadd – Gordon Hayes

Partneriaeth Gogledd Mon – Dafydd Griffiths, John Griffiths
Wylfa Magnox – Dafydd Griffiths, John Griffiths
Un Llais Cymru – Ian Evans, Hefina Williams
Cyngrair Twrcelyn – Dafydd Griffiths, Hefina Williams

Y clerc i ddiweddarau'r wybodaeth ar y wefan ac ar hysbysfwrdd y Cyngor.

CET

6 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 13/4/2021. Cynnig Elfyn Hughes, eilio John Griffiths.

7 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Nododd y clerc ei bod wedi anfon dogfen i'r aelodau cyn y cyfarfod gydag unrhyw ddiweddariadau.

7.1 Iaith y Cyngor – daw diweddariad gan Comisiynydd yr Iaith Gymraeg nad oedd angen cyfreithiol i baratoi cofnodion yn Saesneg. Nodwyd bod angen diweddarau cynllun iaith y Cyngor a bu anfon model i'w addasu, mae gofyn i'r Cyngor gyflwyno'r cynllun i'r Comisiynydd erbyn diwedd Medi. Cytuno bydd y pwyllgor cyllid a pholisi yn edrych ar y ddogfen yn fanwl ac yn adrodd yn ol i'r Cyngor Llawn. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon y ddogfen at bawb er gwybodaeth.

Cyllid

Cadarnhawyd byddai posib crynhoi unrhyw drafodaeth penodol i'r Saesneg petai angen, a bod yr agenda yn ddwy-ieithog felly byddai modd i aelod o'r gymuned gyfieithu rhannau o'r ddogfen ar lein petaent am wneud hynnu.

7.2 Ysgol Gynradd – cytuno gwahodd Miss Delyth Lemin Roberts, pennaeth newydd yr Ysgol i gyfarfod mis Mehefin.

7.3 Hysbysfwrdd – mae'r clerc wedi edrych ar wahanol opsiynnau a bu cyflwyno gwahanol gostau i'w ystyried. Wedi trafodaeth, cytuno byddai paentio'r cysgodfan bws ger y siop a gosod yr hysbysfwrdd gyfredol y tu mewn iddo am y tro. Nodwyd bod gofyn statudol i'r Cyngor gael hysbysfwrdd.

GH
EH
INE

7.4 Priffyrdd – bu cydnabod derbyn ebost Huw Percy a nodi nad oedd wedi ateb unrhyw un o'r cwestiynnau. Cytuno ymateb a gofyn am amserlen penodol a pham nad oedd arwyddion 20mya ger yr ysgol fyth, a gofyn am gadarnhad a diweddariad am gynllun croesfan a phalmentydd yn y sgwar. Cytuno anfon copi at Annwen Morgan gan nad oes atebion wedi ei derbyn ers mis Awst diwethaf. Cytuno trafod cynllun arwyddion 20mya wedi eu dylunio gan blant yr ysgol gyda Miss Roberts, pennaeth yr ysgol.

CET

Nododd Dafydd Griffiths nod addewid am arian LIC tuag at balmentydd yn Dulas (ger y safle bws). Deallwyd bod cynlluniau y neu lle ond nad oedd unrhyw wait wedi ei gwblhau. Nodwyd pryder na fyddai'r arian grant ar gael os bydd oedi pellach ac mae angen y gwaith i ddiogelu trigolion yr ardal. Cytuno cysylltu a'r adran briffyrdd i holi am ddiweddariad a nodi nad yw'r cyngor cymuned wedi gweld y cynlluniau na chael cyfle i roi adborth.

CET

8 Diweddariadau

8.1 **Caeau Chwarae** – cafwyd pris i drin y ffens ym mhen pella'r cae chwarae. Cytuno byddai pwyllgor y cae chwarae yn cwblhau'r gwaith, cynnig Hefina Williams, unfrydol hapus.

cae
chwarae

Nodwyd bod cwynion wedi eu derbyn am lygod mawr ym Maes Llwyfo.

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw beth i ddenu llygod i'r parc; mae hanes o sbwriel yn cael ei daflu o'r gerddi tuag at y cae chwarae; cadarnhawyd nad oedd posib rhoi gwenwyn oherwydd y cathod sy'n dod o'r gerddi.

Cafwyd ddiweddariad gan Glenys Jones am brisiau i darmacio'r llwybr ym Maes Llwyfo. Cafwyd ddiweddariad gan Carol Whitaker am gynlluniau i ail-baentio wal ym Maes Llwyfo yn dilyn difrod graffiti gan nodi bod grant wedi ei diogelu tuag at y gwaith. Nodwyd efallai byddai posib paentio'r gysgodfan yn y pentref hefyd fel rhan o'r un cynllun cyn ail-osod yr hysbysfwrdd.

GJ
CW

8.2 Llithrfa – mae 19 gorïad wedi eu dosbarthu hyd yma, bydd y postyn yn cael ei osod ddiwedd yr wythnos.

8.3 Mynwent – mae'r gwaith i glirio'r fynwent wedi ei gwblhau erbyn hyn. Mae angen i bwyllgor y fynwent gynnal cyfarfod ar y safle i wirio bod y gwaith wedi ei gwblhau yn unol a'r manyldeb, a chadarnhau'r rhan nesaf o'r gwaith i ddatblygu gerddi coffa. Gofynnwyd i'r clerc wirio gyda Parch. Kevin Ellis am y weithdrefn o symud cerrig er mwyn diogelu ardal yn yr Hen Fynwent.

M'went
CET

8.4 Cyllid a Pholisi – bydd angen i'r pwyllgor gwrdd i drafod cynllun iaith y Cyngor.

CET

8.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985) – cytuno gohurio cyfarfod nesaf y pwyllgor nes mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfle i bwyllgor y Fynwent gwrdd ac adrodd yn ol ar y gwaith.

Deallwyd bod yr ysgol wedi cynnal cystadleuaeth tyfu blodau haul eu hunain eleni. sgol wedi cynnal cystadleuaeth tyfu blodau haul eu hunain eleni. Cytuno peidio cynnal cystadleuaeth eleni, a chydweithio gyda'r ysgol i gydlynnu cystadleuaeth 2022.

Cadarnhawyd bod yr ysgol a'r cylch meithrin wedi derbyn compost tuag at weithgareddau garddio.

8.6 Llwybrau – bydd y pwyllgor yn cwrdd 13/5/2021. Nodwyd bod hyd at £2800 o grant i'w gael gan CSYM tuag at gynnal llwybrau'r ardal, ac nad oedd y Cyngor wedi hawlio'r swm llawn yn ystod 2020/21 (diffyg gwariant). Cytuno rhoi'r hawl i'r pwyllgor weithredu hyd at y gyllideb ac adrodd unrhyw wariant i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er mwyn monitro gwariant. Cynnig Dafydd Griffiths, eilio Elfyn Hughes.

8.7 Pwyllgorau Allannol – dim

9 Cynllunio

9.1 Ceisiadau – bu dau gais i'w trafod:

2 Bod Hyfryd (OP/2021/1) – nodwyd bod caniatad wedi ei ganiatau a'i wrthod yn y gorffennol. Cytuno gadael y cais i ddoethineb y swyddogion. Cynnig Elfyn Hughes, unfrydol hapus.

CET

Mynydd Gwyn (FPL/2021/68) – cytuno yn unfrydol cefnogi'r cais mewn egwyddor ond nodi pryderon am fynedfa i'r A5025 (a'r hanes o ddamweiniau angeuol a'r safle bws), nodi hefyd effaith posib ar y llwybr cyhoeddus a'r angen am fwy o arwyddion er mwyn dynodi'n glir cyfeiriad y llwybr.

9.2 Penderfyniadau – dim gwybodaeth gan CSYM.

9.3 Gorfodaeth – cadarnhawyd bod gwybodaeth wedi ei anfon at yr aelodau er gwybodaeth. Cadarnhawyd hefyd bod CSYM wedi cydnabod y gwyn yn erbyn y garafan yng Ngadfa Newydd yn cael ei hysbysebu ar gyfer llety gwyliau.

10 Materion Ariannol

10.1 Taliadau - cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£44.50 Timpsons (placiau)
£407.65 HMRC PAYE
£508.77 HMRC PAYE
£96.00 R Edwards (Fynwent)
£210.00 IG Jones (gwasanaeth cyflog)
£135 Anglesey Computer Solutions (gwefan)
£5.00 J Pearson (bocsus blodau TMI)
£300.00 D Holdsworth (torri caeau chwarae)
£198.00 D Holdsworth (compost TMI)
£301.77 Cyflog Clerc

10.2 Ceisiadau am Arian - Daw cais gan Ty Gobaith. Bu cydnabod bod y flwyddyn diwethaf wedi bod yn annodd iawn i fudiadau o'r fath gynnal gweithgareddau codi arian. Cytuno cyfrannu £50 tuag at yr elusen.

CET

11 Iechyd a Diogelwch

Materion wedi eu trafod eisioes (caeau chwarae)

12 Cofeb

Nid oes diweddariad pendant gan y cyfreithiwr, ond mae'r broses o gofrestru'r gofeb yn parhau. Bu cydnabod ei fod yn gan mlynedd ers dadorchuddio'r gofeb eleni. Cytuno cynnal gwasanaeth mwy na'r arfer ar Sul y Cofio gan obeithio bydd cyfyngiadau covid yn galluogi hyn. Nodwyd byddai posib agor y Neuadd ar gyfer lluniaeth. Cytuno byddai Gordon Hayes, Carol Whitaker, Hefina Williams ac Elfyn Hughes yn arwain ar y trefniadau. Bydd posib gofyn i'r ysgol am fewnbwn hefyd.

GH
CW
HFW
EH

13 Gohebiaeth

Cadarnhaodd y clerch bod unrhyw ohebiaeth wedi ei anfon i'r aelodau drwy ebost wrth ei dderbyn.

Bu tynnu sylw at gais am fin yn Nebo. Cytuno gofyn i Aled Morris Jones gysylltu a'r swyddogion perthnasol a hefyd gofyn am ddiweddariad am y bin i'w osod ar y gyffordd tuag at Graig Lwyd. Cytuno byddai gosod dosbarthwr bagiau baw ci yn fuddiol yn Nebo hefyd.

CET
AMJ

14 Unrhyw fater ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf

14.1 Nododd Alan Williams ei fod gyda'r wefan llaneilian.com os oedd y Cyngor am ei ddefnyddio neu datblygu gwefan cymunedol. (nododd byddai penysarn.com ar gael i'r ysgol).

14.2 Adfeilion Ty Newydd – nodwyd pryderon am waith clirio yn yr adfeilion a giatau newydd i'r lon. Nid oedd sicrwydd am bwy oedd berchen ar y tir, ond bu nodi bod trafferthion wedi bod yn y gorrffennol. Cytuno cynnwys yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf a gwneud ymholiadau yn lleol cyn tynnu sylw CSYM.

Pawb

15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor i'w gynnal nos Fawrth Mehefin 8, 2021 am 7 o'r gloch.

Cytuno bydd cyfarfodydd y Cyngor yn parhau i'w cynnal drwy Zoom ar yr ail ddydd Mawrth o'r mis hyd mis Awst. Gobeithir bydd gallu cynnal cyfarfodydd yn y Neuadd cyn gynted a phosib.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.10 o'r gloch

Arwyddwyd
Ian Evans
Cadeirydd

CET05/2021